**1 Mae’r Dociau’n Llawn**

Mae’r dociau’n llawn, mae’n hwyr brynhawn,
Mae llongau ar bob llaw.
Mae gwynt y de yn llenwi’r lle,
Mae cyffro drwyddi draw.

Acenion lu, yw clywed si yn siarad pob un iaith,
Sŵn mawr a bach, sŵn chwerthin iach,
Sŵn gweiddi a sŵn gwaith.

**Mae dyfroedd Merswy cychwyn ar y daith,**
**O’r afon fach, hyd eitha’r moroedd maith.**
**Mae’r hwyliau’n tynnu, tynnu**
**Mae’r don yn denu, denu**
**I’r lle tu draw i’r gorwel**
**Dros y lli**

Rhaid mynd ymhell, am obaith gwell,
Rhaid mynd i’r antur fawr,
Man gwyn, man draw a fory ddaw
Mae’r mynd yn dechrau’n nawr.

**Mae dyfroedd Merswy cychwyn ar y daith,**
**O’r afon fach, hyd eitha’r moroedd maith.**
**Mae’r hwyliau’n tynnu, tynnu**
**Mae’r don yn denu, denu**
**I’r lle tu draw i’r gorwel**
**Dros y lli**

Mae fory newydd sbon.
Yr ochr draw i’r don.
A does dim aros i fod, mae’n gân sydd heb ei chanu,
Mae’n stori heb ei ‘sgwennu,
**Ein cân, a’n stori ni...**

**Mae’r dociau’n llawn, mae’n hwyr brynhawn,**
**Mae llongau ar bob llaw.**
**Mae gwynt y de yn llenwi’r lle,**
**Mae cyffro drwyddi draw.**

**Mae dyfroedd Merswy cychwyn ar y daith,**
**O’r afon fach, hyd eitha’r moroedd maith.**
**Mae’r hwyliau’n tynnu, tynnu**
**Mae’r don yn denu, denu**

**I'r lle tu draw i'r gorwel**
**Dros y lli,**
**Dros y lli,**
**Dros y lli.**

## 2 Cân y Ffair

Mae'n wawr drwy'r pentre
Ac mae gwlith y bore yn dawnsio ar y gwair
Mae lloi a gwartheg, ceffylau a chwaneg yn tyrru tua'r ffair.
Mae'r byd yn gyfan mwy neu lai,
am fod yn rhan o gyffro Calan Mai

Mae'r un sydd yn paffio ac ymladd a chwffio
I rhai sydd am fentro fynd ato i'w gell.
Mae prynnu a gwerthu fel 'tai na ddim fory
Ac mae un sy'n dweud ffortiwn er gwaeth neu er gwell

Mae'n bnawn drwy'r pentre
Ac mae gwlith y bore ar goll o dan ar y gwair
Mae lloi a gwartheg, ceffylau a chwaneg yn llenwi stryd y ffair.
Mae'r byd yn gyfan mwy neu lai,
wedi dod yn rhan o gyffro Calan Mai

Sŵn clebar a siarad, sŵn cân rhwng dau gariad,
Sŵn brefu a gweiddi o fore hyd hwyr
Sŵn canu a dawnsio, a rhai'n anghytuno
A rhai erbyn nos wedi meddwi yn llwyr

Mae'n hwyr drwy'r pentre
A does gwlith na bore i'w deimlo ar y gwair
Mae lloi a gwartheg, ceffylau a chwaneg yn teithio i ffwrdd o'r ffair.
Mae'r byd yn gyfan mwy neu lai,
Dal am fod yn rhan o gyffro Calan Mai

**3 Cân Mari**

*M: Mae heddiw'n brifo fy enaid i*
*M: Mae'n rhaid gwneud rhybeth er mwyn y tri*
*E: Rhaid ennill arian i ni gael ffoi*
*T+W: A gwneud yn siwr fod y cylch yn troi*

Teulu: *Rhaid i'r ifanc fyw, cyn bydd hi rhy hwyr*
*Rhaid sychu'r dagrau a chredu'n llwyr*

**Mynd i ffwrdd am eiliad fach**
**Mynd i ffwrdd a chanu'n iach**
**Mynd i ffwrdd er mwyn dod yn ôl**
**Dod yn ôl i'r lle mae'n nghalon i.**

M: Does dim fory i ni fan hyn
E: Yn nghartre'r baw a'r llygaid syn
T: Does dim fory ond fory ddaw
W: A'i wyntoedd cryf a'i gawod law

M: Ac er mwyn i mi
Achub fy nheulu i
Ei gadael am 'chydig
Sy' rhaid i mi

**Mynd i ffwrdd am eiliad fach**
**Mynd i ffwrdd a chanu'n iach**
**Mynd i ffwrdd er mwyn dod yn ôl**
**Dod yn ôl i'r lle mae'n nghalon i.**

M: Eli cofia dy ddarllen di
Er mwyn ti ddeall fy llythre i
Wil a Tomos bihafiwch eich dau
Codwch yn gynnar, a chynnar i'ch gwlâu
Byddaf yma i'ch gwarchod er mod i mor bell
A dwi'n addo fy nghalon
Bydd fory'n well

**Mynd i ffwrdd am eiliad fach**
**Mynd i ffwrdd a chanu'n iach**
**Mynd i ffwrdd er mwyn dod yn ôl**
**Dod yn ôl i'r lle mae'n nghalon i**

**Mynd i ffwrdd am eiliad fach**
**Mynd i ffwrdd a chanu'n iach**
**Mynd i ffwrdd er mwyn dod yn ôl**
**Dod yn ôl i'r lle mae'n nghalon i.**
Teulu: I'r lle mae'n nghalon i
M: *Y lle mae'n nghalon i.*

**4 Cân y Wyrcws**

Codi am bump y bore yn barod am y gwaith,
Mae'r bore'n dod rhy gynnar,
A'r diwrnod yn rhy faith
Rhaid clirio a sbriwsio bob un man, nes bo'r dwylo'n wan

*Croeso i'r wyrcws y warden ydw i*
*Mae'n well i chi wybod eich lle.*
*Croeso i'r wyrcws bob un ohono chi*
*Mae'n well i chi wybod eich lle.*

'Di gorffwyso ddim yn opsiwn
Rhaid mynd a mynd o hyd
Ac os oes na ddarn o fawiach
Mi fydd hi'n ddiwedd byd
Mae rheolau i'w cadw, bob eiliad pob awr
A chi yw llwch y llawr

*Croeso i'r wyrcws y warden ydw i*
*Mae'n well i chi wybod eich lle.*
*Croeso i'r wyrcws bob un ohono chi*
*Mae'n well i chi wybod eich lle.*

Bydd 'na sgwrio, bydd 'na weithio
O fore hyd yr hwyr
A byddwch chi blantos bach wedi blino'n llwyr

*Croeso i'r wyrcws y warden ydw i*
*Mae'n well i chi wybod eich lle.*
*Croeso i'r wyrcws bob un ohono chi*

*Mae'n well i chi wybod eich lle.*

'Sdim dewis ond bod yma
Yn yr uffern ddu
'Sdim dewis ond bod yma
Wrth gofio'r dyddie fu...
A phan bo'r nos yn d'wyllwch llwyr
Mae'r dagrau'n dod
Ond does neb â wyr,
Neb â wyr... Ond ni!!!

Croeso i'r wyrcws y warden ydw i
Mae'n well i chi wybod eich lle.
Croeso i'r wyrcws bob un ohono chi
Mae'n well i chi wybod eich lle.

## 5 Cân Dianc

Dianc, dianc yn yr hwyr
I ble, i ble? Does neb â wyr
Dianc, dianc yn yr hwyr

Rhedeg, rhedeg, colli gwynt
Dychryn, dychryn, mynd yn gynt
Rhedeg, rhedeg colli gwynt

Gwylia dy bocedi
Mae 'na ladron hyd y lle
Ma' 'na rhai sy'n dwyn yr enaid
Ar strydoedd llwyd y dre

Gwylio, gwylio heb edrych nôl
Mynd ymlaen a chroesi'r ddol
Gwylio, gwylio heb edrych nôl

Cyrraedd, cyrraedd y ddinas fawr
Prysur, prysur ar doriad gwawr
Cyrraedd, cyrraedd y ddinas fawr

Gwylia dy bocedi
Mae ‘na ladron hyd y lle
Ma’ ‘na rhai sy’n dwyn yr enaid
Ar strydoedd llwyd y dre

Dianc, dianc i gael man gwyn
Dianc, dianc a chydio’n dynn
Dianc, dianc i gael man gwyn

**6 Cân y Capten**

*Hon yw fy llong, fy llong fawr i*
*Y llong fawr orau sydd ar y lli*
*Ond mae rhai yn mynnu cuddio*
*Heb dalu dim i hwylio*
*Mae rhai yn mynnu cuddio*
*Ac os byddwn ni yn eu ffeindio*
*Fe taflwn i mewn i’r môr*

Chwilio, chwilio ar hyd y lle
Chwilio bob twll a chornel
Chwilio’n fanwl o waelod yr howld
I fyny i’r mastiau uchel
Chwilio, chwilio, bob yn ddau
A chwilio nes bo’r nos yn cau

*Hon yw fy llong, fy llong fawr i*
*Y llong fawr orau sydd ar y lli*
Rhaid aros yma’n dawel, rhaid cadw pennau’n isel
Rhaid aros yma’n dawel a sgwatio yn ddiogel
Nes cawn ni taflu i mewn i’r môr

Chwilio, chwilio ar hyd y lle
Chwilio bob twll a chornel
Chwilio'n fanwl o waelod yr howld
I fyny i'r mastiau uchel
Chwilio, chwilio, bob yn ddau
A chwilio nes bo'r nos yn cau

*Hon yw fy llong, fy llong fawr i*
*Y llong fawr orau sydd ar y lli*
*Os byddwn ni yn darganfod y rhai sy'n mynd i'r cysgod*
*Os byddwn ni yn darganfod fe fyddwn ni yn barod*
*I'w taflu i mewn i'r môr*

Chwilio, chwilio ar hyd y lle
Chwilio bob twll a chornel
Chwilio'n fanwl o waelod yr howld
I fyny i'r mastiau uchel
Chwilio, chwilio, bob yn ddau
A chwilio nes bo'r nos yn cau
Chwilio, chwilio, bob yn ddau
A chwilio nes bo'r nos yn cau

**7 Dan y Dec**
Cai: Mae'n dywyll, dywyll dan y dec
Mae'n oer, mae'n llaith, mae'n arw
N+C: Mae'r gwaith yn galed wrth ddioddef poen
Mae'r ysbryd bron ar farw

Anni a Delyth: Mae'r gwynt yn oer o dan y dec
A'r dioddef yn gwaethygu
Cleo: Mae'r afiechydon yn dod o hyd
A'r corff yn dechrau methu

**Tywyll, tywyll, mor oer, mor oer**
**Mae'r ysbryd bron ar farw**
**Does dim un son am ben y daith**
**Am fwyd i'n llenwi na chysgu chwaith**
**Tywyll, tywyll, mor oer, mor oer**
**Mae'r ysbryd bron ar farw**

Meghan: Mae llygod mawr o dan y dec
Mae’r ofn i’w weld ym mhobman
Noa Lily: Mor fawr yw’r tonnau o’n cwmpas ni
Mae’r dec a’r howld yn gwegian

**Tywyll, tywyll, mor oer, mor oer**
**Mae’r ysbryd bron ar farw**
**Does dim un son am ben y daith**
**Am fwyd i’n llenwi na chysgu chwaith**
**Tywyll, tywyll, mor oer, mor oer**
**Mae’r ysbryd bron ar farw**

Ellis: Mae’n dywyll, dywyll dan y dec
Mae’n oer, mae’n llaith, mae’n arw
Gruff: Mae’r gwaith yn galed wrth ddioddef poen
Mae’r ysbryd bron ar farw

**Tywyll, tywyll, mor oer, mor oer**
**Mae’r ysbryd bron ar farw**
**Does dim un son am ben y daith**
**Am fwyd i’n llenwi na chysgu chwaith**
**Tywyll, tywyll, mor oer, mor oer**
**Mae’r ysbryd bron ar farw**

## 8 Codi Hwyliau

Nancy: Mae’r gwynt yn llenwi’r hwyliau
Mae’r bwyd yn llenwi’r stôr
Meghan: Ac mae llond y llong o Gymry yn teithio dros y môr
OP: America sy’n galw nawr lle mae popeth yn fwy na mawr
**Ymlaen, ymlaen â ni**

Cai: Bydd canu’n llenwi’r deciau

O'r bore hyd yr hwyr
Lilly: Bydd dawnsio a bydd miri
Osian: Nes bydd na flino'n llwyr
Catrin: America sy'n galw nawr lle mae popeth yn fwy na mawr
**Ymlaen, ymlaen â ni**

Emily + Olivia: Os ydy'r howld yn dywyll
Os ydy'r lle'n rhy llaith
Cleo: Bydd y canu dan y deciau
Yn ein cario ar y daith
Ellis: America sy'n galw nawr lle mae popeth yn fwy na mawr
**Ymlaen, ymlaen â ni**
Noa Lily: Rhaid dweud ffarwel wrth Gymru,
Bob mynydd, bryn a dôl
Delyth: Rhaid bwrw 'mlaen at fory
Heb fentro edrych nôl
**America sy'n galw nawr lle mae popeth yn fwy na mawr**
**Ymlaen, ymlaen â ni**
**Ymlaen, ymlaen â ni**

**9 Penbleth**

Nancy: Mae stormydd y byd o'n blaenau
Mae'r gwyntoedd a'r tonnau ar ddod
Ellis: Mae'r fellten a'r daran yn agos
A does dim heddwch i fod
Catrin a Cai: Mae'r gorwel draw yn duo
Ac mae'r gwynt yn codi, yn codi ei gri
Teulu: Byw i frwydro fyddwn ni

**Rhwng tir a thir mae stormydd maith**
**Rhwng tir a thir mae perygl ar y daith**

**Rhaid gostwng yr hwyliau a chodi ffydd**
**A daw'r môr yn dawel eto**
**Rhyw ddydd**

Owain: Mae stormydd y byd o fy mlaen i,
Efallai fod y diwedd ar ddod
Bl4: Mae'r dioddef a'r poenau mor agos
A does dim gwella i fod
Bl4: Mae fory nawr rhy agos
Ac mae heddiw'n cilio, yn cilio draw
Yn y diwedd fory ddaw

**Rhwng tir a thir mae stormydd maith**
**Rhwng tir a thir mae perygl ar y daith**
**Rhaid gostwng yr hwyliau a chodi ffydd**
**A daw'r môr yn dawel eto**
**Rhyw ddydd**

**Clymwch y rhaffau a chaewch pob drws yn dynn**
**Gweddiwch, gweddiwch ddaw'r corwynt gyda hyn**
**Clymwch y rhaffau ac fe ddown drwyddi**
**Os Duw a'i mynn**

**Rhwng tir a thir mae stormydd maith**
**Rhwng tir a thir mae perygl ar y daith**
**Rhaid gostwng yr hwyliau a chodi ffydd**
**A daw'r môr yn dawel eto**
**Rhyw ddydd** **Rhwng tir a thir mae stormydd maith**
**Rhyw ddydd** **Rhwng tir a thir mae perygl ar y daith**
**Rhaid gostwng yr hwyliau**
**A chodi ffydd**
**A daw'r môr yn dawel eto**
**Rhyw ddydd**

**10 Diweddglo**
Teulu: Bydd fory yn anodd, mor anodd i ni
Heb Eli i afael llaw 😦
Mae bywyd yn ddiwedd ac yn dechrau'r un pryd
Does wybod beth â ddaw, does wybod beth â ddaw

**Ond bydd ddoe a'i holl freuddwydion**

**Yn dal yn nwfn y galon**
**Bydd Cymru'n dal yn fyw'n ein henaid ni--**
**Bu'r daith yn llawn o ddagrau**
**Ond y nawr mae'n rhaid i ninnau**
**Cyrraedd ein fory newydd dros y lli**

Bl4: Mae'r wawr yn ein haros ac mae'r bore ar ddod
A ninnau yn mentro ffoi
OP: Mae tir y gorllewin yn denu o bell
BL4: Ac mae'r cylch yn dal i droi, ac mae'r cylch yn dal i droi

**Ond bydd ddoe a'i holl freuddwydion**
**Yn dal yn nwfn y galon**
**Bydd Cymru'n dal yn fyw'n ein henaid ni**
**Bu'r daith yn llawn o ddagrau**
**Ond y nawr mae'n rhaid i ninnau**
**Cyrraedd ein fory newydd dros y lli**

Bl4: Byddwn yno i'n gilydd yn barod i'r gwaith
Bl4: Pob un yn gwneud ei ran
BL4: Ac er yr holl crio a fu fe gawn hyd
i'r llawenydd yn y man, i'r llawenydd yn y man

Teulu: A phan ddaw'r glanio yr ochr draw
Bydd Eli'n y galon i afael llaw
Bydd hi wrth ein hymyl drwy bob rwystr a fydd
Bydd hi yn ein nghwmni ym mhob nos a dydd

**Ond bydd ddoe a'i holl freuddwydion**
**Yn dal yn nwfn y galon**
**Bydd Cymru'n dal yn fyw'n ein henaid ni**
**Bu'r daith yn llawn o ddagrau**
**Ond y nawr mae'n rhaid i ninnau**
**Cyrraedd ein fory newydd dros y lli**

**Ond bydd ddoe a'i holl freuddwydion**
**Yn dal yn nwfn y galon**
**Bydd Cymru'n dal yn fyw'n ein henaid ni**
**Bu'r daith yn llawn o ddagrau**
**Ond y nawr mae'n rhaid i ninnau**
**Cyrraedd ein fory newydd dros y lli x3**